Lee Waters AC
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-913
Ein cyf/Our ref LW/05863/19

Janet Finch-Saunders AC

Government.Committee.Business@gov.wales

4 Tachwedd 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref ynghylch deiseb Llwybr Aml-ddefnydd Lôn Lâs Môn. Cafodd ei anfon ymlaen ataf i ymateb oherwydd fy nghyfrifoldebau portffolio.

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau newid moddol o geir yn *Llewyrch i bawb: Cymru carbon isel,* blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw annog teithio llesol, cerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd - yn enwedig ar gyfer teithiau fyddai fel arall yn cael eu gwneud gyda trafnidiaeth fodurol.

Mae ein Deddf Teithio Llesol yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio a chreu rhwydweithiau cerdded a beicio ym mhob pentref mawr, tref a dinas. Cyngor Sir Ynys Môn fyddai'n penderfynu a ddylid datblygu hwn fel llwybr teithio lesol drwy ymgynghoriad cyn cyflwyno eu Map Rhwydwaith Integredig nesaf. Mae Amlwch a Llangefni yn lleoliadau dynodedig y mae dyletswydd ein Deddf Teithio Llesol yn berthnasol iddynt, er nid Gaerwen.

Rydym yn cydnabod yn llawn y posibilrwydd o ddatblygu rheilffordd segur rhwng Gaerwen ac Amlwch fel llwybr aml-ddefnydd ar gyfer hamdden a thwristiaeth. Fodd bynnag, er ein bod yn rhoi gwerth ar feicio a cherdded, nid yw'r rhain yn flaenoriaethau ar gyfer y polisi trafnidiaeth.

Cyngor Sir Ynys Môn fyddai'n penderfynu a yw'n dymuno mynd ar ôl ffynonellau cyllid eraill ar gyfer datblygu'r rheilffordd segur fel llwybr aml-ddefnydd. Mae'r rheilffordd segur rhwng Gaerwen ac Amlwch yn berchen i Network Rail ar hyn o bryd, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gyfrifoldeb ddatganoledig dros faterion o'r fath.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi cyhoedd ein Gweledigaeth ar gyfer Rheilffyrdd yn ddiweddar a fydd, yn y tymor hir, yn caniatáu inni ystyried ail-agor rhai o'r rheilffyrdd sy'n segur ar hyn o bryd, megis rheilffordd Gaerwen i Amlwch. Mae hyn hefyd yn cynnwys Datblygiadau y Coridor Strategol gan gynnwys cysylltiadau gwell o Ynys Môn i Fangor, Caernarfon, Aberystwyth ac i Abertawe, Caerfyrddin a'r De-orllewin. Mae dolen at ein Gweledigaeth ar gyfer Rheilffyrdd i'w gweld ar https://gov.wales/railway-wales-case-devolution. Hoffwn felly i unrhyw ddefnydd arall yn y cyfamser gynnwys defnydd o'r fath o bosibl yn y dyfodol ar gyfer holl deithwyr ar reilffyrdd a chludwyr nwyddau.

Yn gywir,

Lee Waters AC
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport